

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Astudiaethau Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

Actau 2: 41-44

Actau 4: 32-35



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 2: 42

Astudiaeth 1 Y Ffordd Ymlaen – Cristnogion gyda'i Gilydd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Actau 4: 23-31


Hebraid 10: 25

I Ioan 1: 5-7

Efallai y byddi di'n mynd i ysgol newydd cyn hir. Mae'n siwr dy fod yn meddwl tybed sut le fydd yna! Byddi di'n siwr o gael llawer o brofiadau newydd a dysgu pethau newydd. Dyna fel y mae pan fydd rhywun yn dod yn Gristion ac yn derbyn Iesu i fod yn Waredwr iddo. Mae fel cael bywyd newydd. Yn y gyfres hon, byddwn ni'n dysgu nifer o bethau pwysig am fywyd Cristion newydd.

C Llanwch y bwllch isod o'r Darlleniad cyntaf o'r Beibl.

Mae Duw yn dymuno i Gristnogion ddod mor aml ag sy'n bosib.




Yn y Beibl, mae'n bwysig gwybod nad yw'r gair "Eglwys" byth yn golygu adeilad; yn lle hynny, mae'n golygu GRŴP O GRISTNOGION sy'n cwrdd i addoli Duw a'i wasanaethu.

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir yn y frawddeg isod:-

Yn y Beibl, OBPL yw'r WSGYEL, nid DEDIALA

C Ysgrifennwch ar yr arwydd beth oedd enw'r ddinas lle roedd yr eglwys Gristnogol gyntaf. (Clw - Actau 1:12-14)



Dewch i ni ddychmygu ein bod ni'n cael mynd i'w cyfarfodydd nhw! Beth maen nhw'n ei wneud? Pa fath o bobl ydyn nhw?

C Rhowch y geiriau hyn yn y bylchau cywir:-

bara Pedr fydd cofio gryfach dysgu mwynhau gweddio

Roedden nhw'n dod i wybod am Iesu wrth i a'r apostolion eraill eu

Roedden nhw'n bod yng nghwmni ei gilydd; un o'r geiriau yn y Beibl am hyn yw "cymdeithas".

Roedden nhw'n am yr Arglwydd Iesu trwy "dorri".

Roedden nhw'n treulio amser yn ar Dduw.

Trwy wneud y pethau hyn roedd eu yn Iesu'n dod yn

4

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-

Os ydych chi'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist, does dim angen help Cristnogion eraill arnoch chi.

Rydyn ni'n dod yn well Cristnogion pan fyddwn ni'n gwneud y pethau y mae'r Beibl yn eu dysgu i ni.

Y cyfan y mae Duw yn disgwyl i ni ei wneud yw dweud gweddi gartref weithiau.

Rydyn ni'n dod i nabod Iesu Grist yn well pan fyddwn ni'n cael cymdeithas gyda Christnogion eraill.

4

1

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

3

C Darllenwch Actau 4:32-35 eto. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau sy'n disgrifio'r eglwys yn Jerwsalem.

BARUS PAROD I HELPU CARIADUS
HUNANOL CYMWYNASGAR CAS

Ydych chi'n credu go iawn yn Iesu Grist? Os felly, ceisiwch gwrdd â Christnogion eraill. Gofynnwch i Dduw eich helpu i dyfu'n well Cristion. Cofiwch, mae'r pethau y mae'r Adnod Allweddol yn sôn amdanynt yn bwysig yn eich bywyd newydd chi.

C Darllenwch yr adnodau isod ac ysgrifennu'n fras beth wnaeth y Cristnogion cynnar.

Actau 2: 44 & 45

Actau 4: 31

Actau 5: 42

3



DARLLENWCH
Mathew 28: 16-20
Actau 8: 34-39 a 18: 8



ADNOD ALLWEDDOL
Actau 2: 41

Astudiaeth 2 Y Ffordd Ymlaen – Y Bedydd Cristnogol



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 3:1-5


Actau 16:11-34

Rhufeiniaid 6:1-14

Rhufeiniaid 10:9

Rydyn ni wedi dysgu'n barod bod dod yn Gristion yn gychwyn ar fywyd hollol newydd! Os ydych yn Gristion, rydych wedi cael eich "geni eto" fel y dysgodd Iesu yn Ioan 3. Mae eich hen fywyd wedi gorffen ac rydych yn dechrau ar fywyd newydd. Sut allwch chi roi gwybod i'ch ffrindiau a'ch teulu am y newid mawr hwn? Gallwch gael eich **BEDYDDIO**. Dyna beth roedd y Cristnogion cynnar yn ei wneud!

C Yn ôl rhan olaf Actau 18:8, pa dri cham roedd y bobl hyn yn eu cymryd?




3


Holwch eich hunan: "Ydw i wedi cymryd y camau hyn?"

Er mwyn cael gwybod yn union sut roedd y rhai oedd yn credu yn Iesu'n cael eu bedyddio, darllenwch Actau 8:36-38.


1. Wrth fynd i lawr i'r dŵr rydyn ni'n cael ei huniaethu â marwolaeth Iesu



2. Wrth fynd o dan y dŵr rydyn ni'n cael ein huniaethu â chladdu Iesu



3. Wrth godi o'r dŵr rydyn ni'n cael ein huniaethu ag atgyfodiad Iesu



C Tynnwch linell trwy'r geiriau anghywir yn y cromfachau:-

Bedyddiodd Philip y dyn mewn (olew, dŵr, gwin).

Credodd y dyn yn Iesu (cyn, ar ôl) iddo gael ei fedyddio

Roedd y dyn (yn dymuno, yn gwrthod, yn ofni) cael ei fedyddio.

Yn ystod y bedydd, aeth (un, dau, tri) i mewn i'r dŵr.

4

Nawr, meddyliwch pam y mae Cristnogion yn cael eu bedyddio.

I Maen arnyn nhw eisiau bod yn UFUDD i Iesu! Dywedodd ef y dylai pawb sy'n credu ynddo gael eu bedyddio. Dylen ni fod yn ufudd iddo! Darllenwch Mathew 28:18-20.
Dyma rai o eiriau olaf Iesu Grist i'w apostolion cyn iddo fynd yn ôl i'r Nefoedd.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-

- Doedd gan yr Arglwydd Iesu ddim awdurdod ar y ddaear.
- Dyweddodd Iesu wrth yr apostolion am bregethu wrth yr Iddewon yn unig.
- Mae pobl sy'n credu i fod i gael eu bedyddio.
- Mae gorchmynion Iesu yn bwysig iawn i Gristnogion.
- Dyweddodd Iesu y byddai gyda Christnogion bob amser pan fyddent yn gweithio drosto.

5

2 Maen nhw'n dymuno CYFFESU yn gyhoeddus eu bod wedi dechrau dilyn Iesu Grist. Mae Rhufeiniaid 10:9 yn dweud wrthym pa mor bwysig yw cyffesu'r Arglwydd Iesu.

C Ysgrifennwch yr adnod.

2

Un o'r ffyrdd gorau o gyffesu Iesu'n Arglwydd yw cael ein bedyddio!

C Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ateb y cwestiynau hyn.

- Beth oedd y bobl wedi'i wneud CYN cael eu bedyddio?
- Faint o bobl ddaeth yn Gristnogion y diwrnod hwnnw?

2

CHWILAIR

Chwiliwch am yr atebion i'r cliwiau hyn a rhoi cylch amdanynt. Mae rhai'n rhedeg i fyny, i lawr, ymlaen, yn ôl ac ar hytraws.

Yr enw yn y Beibl am y bobl sy'n cael eu bedyddio.

.....

Er mwyn bedyddio rhywun, mae angen llawer o hwn.

Pwy ddywedodd y dylai ei ddilynwyr gael eu bedyddio?

.....

Enw gwraig a gafodd ei bedyddio (Actau 16)

.....

E	C	A	R	I	
C	R	W	D	T	
R	E	M	A	U	
E	D	N	E	Y	
A	I	D	Y	L	
T	N	E	I	O	
A	W	N	S	R	
B	Y	A	A	U	
C	H	R	E	B	A

4



DARLLENWCH
Luc 22: 14-20
I Corintiaid 11: 23-31



ADNOD
ALLWEDDOL
I Corintiaid 11: 26

Astudiaeth 3 Y Ffordd Ymlaen – Swper yr Arglwydd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 26:17-30 Actau 20:7

Oes gennych chi luniau i'ch atgoffa am ffrind da neu rywun arbennig y gwnaethoch chi gyfarfod â nhw rhyw dro? Pan fyddwch chi'n edrych arnynt, ydyn nhw'n dod nôl ag atgofion da? Mae lesu wedi gadael rhywbeth arbennig i'n hatgoffa ni amdano fe. Dim rhywbeth i edrych arno yw hwn, ond rhywbeth i'w wneud!




C Darllenwch Luc, pennod 22, ac ateb y cwestiynau yn y Croesair

I lawr

1. Pwy oedd yn eistedd wrth y bwrdd gyda lesu?
3. Enw'r pryd bwyd Iddewig pryd y cyflwynwyd Swper yr Arglwydd.
4. Roedd lesu'n gwybod y byddai'n _____ cyn hir. (Adnod 15)

Ar draws

1. Eisteddodd lesu wrth y bwrdd pan ddaeth yr _____.
2. Enw pryd olaf y dydd.
5. Cymerodd y bara a _____ amdano.



3

1

C Mae'r atebion nesaf i'w gweld yn I Corintiaid 11:23-31. Ysgrifennwch y PUM gair sydd ar goll.

“GWNEWCH HYN _____”

Dewch i ni gael gweld yn union beth roedden nhw i fod i'w wneud.

C O'r Darlleniad o'r Beibl, tanlinellwch y geiriau cywir yn y brawddegau hyn:-

Dechreuodd y cyfan un (diwrnod, nos, prynhawn) ychydig cyn i lesu gael ei (gladdu, anafu, fradychu.)

I ddechrau, cymerodd (laeth, win, fara, dŵr). Ar ôl diolch i Dduw amdano, (torrodd ef, rhoddod fenynd arno, taflodd ef) a dweud wrth ei ddisgyblion am ei (werthu, gadw, fwyta).

Yna, cymerodd (botel, ddysgl, gwpan) o win a'i roi i'w ddisgyblion.

Rhoddodd lesu ystyr arbennig i'r BARA a'r GWIN. (I Corintiaid 11)



3

C Beth ddywedodd Iesu y byddai'r bara a'r gwin yn sefyll drostynt?
Llanwch y blychau.



=



=

Trwy wneud hyn, roedd Iesu'n dysgu ei ddisgyblion ei fod ef ar fin marw fel y gallen nhw gael eu hachub. Byddai'n rhoi ei gorff drostynt ar y groes a byddai'n colli eu waed er mwyn iddyn nhw gael maddeuant. Roedd yn bwysig eu bod nhw'n cofio bob amser faint yr oedd hyn wedi'i gostio iddo fe.

Mae'r Arglwydd Iesu eisiau i'w ddilynwy'r heddiw gymryd bara a gwin er cof amdano.

C Tan pryd y maen nhw i fod i wneud hyn?

Mae hyn yn esbonio pam y mae Cristnogion yn dal i wneud fel y dywedodd Iesu. Mae'r hyn a ddywedodd Iesu yr un mor berthnasol i Gristnogion heddiw ag yr oedd i'w ddilynwy'r cyntaf!

Mae'r Beibl yn defnyddio o leiaf ddwy ffordd o ddisgrifio'r weithred arbennig hon a wneir i gofio am Iesu.

Gwnewch hyn

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.

ROTRI'R ARAB _ _ _ _ _ , _ _ _ _ _

PWRES RY RAYDDLWG _ _ _ _ _

2

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-

Mae'r bara yn symbol o waed Iesu.

Mae llawer o Gristnogion yn dal i wneud fel y gofynnodd Iesu iddynt.

Dechreuodd Iesu hyn ar ôl iddo atgyfodi.

Mae'r cwpan gwin yn symbol o'i waed.

Mae Iesu yn dymuno i'r rhai sy'n credu ynddo gofio amdano hyd nes y daw yn ôl.

Dylai rhywun NAD yw'n credu yn Iesu gofio amdano fel hyn.

6



DARLENWCH

1 Pedr 2: 1-3
2 Pedr 3: 18
Actau 17: 10-12



ADNOD
ALLWEDDOL
1 Pedr 2: 2


Astudiaeth 4 Y Ffordd Ymlaen – Tyfu fel Cristion



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

1 Timotheus 2:1-4 Iago 4:8 2 Pedr 2:21

Cafodd pawb ohonom ein geni'n fyw! Pan oeddem yn fabis, roedd angen bwyd addas arnon ni yn rheolaidd. Roedd rhaid i ni gael hynny er mwyn byw! Er mwyn tyfu'n gryf ac yn iach mae'n rhaid i ni gael maeth. Mae ein bywydau ysbrydol ni'n debyg i hynny. Y Beibl, sef Gair Duw yw'r 'bwyd' sy'n gwneud i ni dyfu.



C Darllenwch 1 Pedr 2:2 ac ysgrifennu'ch atebion yn y blychau.

I beth y mae Cristnogion yn debyg?

2

Mae'r Beibl yn cael i gymharu i ryw fath o fwyd cyffredin. Pa fath?

Y ffordd orau i Gristnogion ifanc dyfu yw darllen rhan o'r Beibl bob dydd. (Efallai y bydd raid i chi godi'n gynt i wneud hynny!) Trwy ddarllen y Beibl, rydyn ni'n dilyn esiampl y bobl yn Actau 17:11.


C Darllenwch yr adnod hon ac ateb y cwestiynau:-

Pa enw sy'n cael ei ddefnyddio am "y Beibl"?

2

Pa air/eiriau sy'n dweud wrthym eu bod yn darllen y Beibl yn rheolaidd?

Mae'r Beibl yn llyfr arbennig iawn. Y Beibl yw Gair Duw i ni. Defnyddiodd Duw bobl gyffredin i ysgrifennu'r Beibl ond roedd ei Ysbryd Glân yn rheoli eu meddyliau a'u dwylo ac felly geiriau Duw sydd yma.



C Darllenwch 2 Pedr 1:21, ac ysgrifennu'r rhan o'r adnod sy'n esbonio hyn.

2

Y Beibl yw Gair YSBRYDOLEDIG Duw.

C Darllenwch beth y mae'r Beibl yn ei ddweud amdano'i hunan yn 2 Timotheus 3:16. Ysgrifennwch yr adnod.

2

Er mwyn eich helpu i fynd i'r arfer o ddarllen rhan o'r Beibl bob dydd, beth am ddefnyddio set o nodiadau arbennig i'ch helpu?

C Dyma ysgol dda ar gyfer Astudio'r Beibl bob dydd. Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir ac ysgrifennwch y geiriau ar yr ysgol.

1. LLERANCHDW ddarn.
2. DDIELCHYMW amdano.
3. DDWGCHEIW amdano.
4. ESFNGNIYWRCH ef.
5. Rhowch yr hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith yn eich DYBWY.

Sylwch: Mae'n syniad da cadw llyfr nodiadau ar gyfer adnodau 'arbennig'!

5.
4.
3.
2.
1.

5

Ceisiwch ddringo'r 'ysgol' bob dydd ac fe welwch cyn hir eich bod yn tyfu'n Gristion cryfach. Mae Cam 3 yn yr 'ysgol' yn ein hatgoffa am rywbeth arall sy'n ein helpu i ddod yn Gristnogion cryf. Gweddi yw'r 'llinell ffôn' rhyngom ni a Duw, ein Tad. Wrth i ni weddio arno ef, mae'n ein clywed ni ac yn dod yn agosach atom.



C Ysgrifennwch ran gyntaf Iago 4:8.

1

Mae gweddio yn golygu mwy na gofyn am bethau i ni'n hunain. Mwy o lawer!

Dyma gliwiau i'ch helpu i ddysgu am weddi. Rhowch gylch o gwmpas yr atebion yn y Chwilair.

(Mae rhai o'r geiriau i'w gweld yn I Timotheus 2:1)

1. Rydyn ni i fod i ddweud "_____" wrth Dduw am ei roddion i ni.
2. Rydyn ni'n gwneud hyn pan fyddwn ni'n canmol Duw. _____
3. Rhaid i ni wneud hyn wrth Dduw pan fyddwn ni wedi gwneud rhywbeth drwg.
4. Mae hyn yn golygu gofyn yn daer am rywbeth y mae arnon ni ei angen.
5. Y gair rydyn ni'n ei ddweud ar ddiwedd gweddi. _____
6. Y gair am weddio dros rhywun arall. _____

E	I	R	I	O	L	A	W	
C	H	A	P	M	E	O	M	E
L	E	R	A	G	T	E	C	H
O	M	O	L	I	O	N	C	
I	O	Y	M	B	I	L	E	
D	E	R	W	C	A	I	R	
E	S	C	Y	F	F	E	S	U
A	E	C	E	G	R	A	S	

6

Wrth orffen, holwch eich hunan, "Ydw i wir yn ymddiried yn Iesu Grist i fynd â mi i'r Nefoedd?" Os ydych, rydych chi'n un o'i blant! Cofiwch, os byddwch yn darllen y Beibl yn ofalus ac yn gweddio ar Dduw yn gyson, byddwch yn tyfu!

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawm o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120